# PWYLLGOR TRWYDDEDU STATUDOL

Cofnodion cyfarfod Hybrid a gynhaliwyd ar 16 Mehefin 2026.

Mae agenda'r Pwyllgor ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn bresennol: Y Cynghorydd P. Drake (Cadeirydd); Y Cynghorydd J.M. Norman (Is-gadeirydd); Y Cynghorwyr G. Bruce, B. Dodd, V.P. Driscoll, R. Fisher, C.P. Franks, E.J. Goodjohn, E. Goodjohn, W.A. Hennessy, N.B. Marshallsea, M.J.G. Morgan, S.T. Wiliam ac M.R. Wilkinson.

## 69 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu y datganiad a ganlyn: “A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol".

## 70 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd S. Sivagnanam.

## 71 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

## 72 COFNODION –

PENDERFYNWYD – Y BOD cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Medi 2025 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod cywir.

## 73 ADOLYGIAD O'R DATGANIAD O BOLISI TRWYDDEDU 2026-2031 (CAT) –

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Reolwr y Tîm Trwyddedu, i roi Datganiad drafft arfaethedig o Bolisi Trwyddedu i'r Aelodau i'w ystyried a'i gymeradwyo cyn symud ymlaen at y Cabinet a'r Cyngor Llawn i'w gymeradwyo.

Ar ôl ystyried y mater yn llawn, a heb unrhyw ymholiadau pellach, fe wnaeth y Pwyllgor wedyn:

PENDERFYNWYD – Y dylid cymeradwyo'r Datganiad drafft o Bolisi Trwyddedu a chyfeirio'r Polisi at y Cabinet a'r Cyngor Llawn i'w gymeradwyo'n derfynol.

Rheswm dros y penderfyniad

Er mwyn sicrhau bod yr Awdurdod Trwyddedu yn cyflawni ei ddyletswydd o dan Ddeddf Trwyddedu 2003.